

# Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty  
Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 5 a 6 Mawrth 2024

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	26
4. Y camau nesaf.....	30
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	31
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	32
Atodiad C - Cynllun gwella.....	33

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 5 a 6 Mawrth 2024. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Uwch-swyddog Clinigol ym maes Meddygaeth Niwclear o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 14 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o fynychu'r adran meddygaeth niwclear. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd ac roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn ategu hyn hefyd.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cleifion yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Roedd y staff yn gweithio mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd posterï dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion am gael triniaeth meddygaeth niwclear ac yn eu cynghori i hysbysu staff os oeddent o bosibl yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion wedi siarad yn gadarnhaol am eu profiadau yn yr adran
- Trin cleifion â parch
- Rhoi gwybodaeth a chynghor i gleifion ynghylch eu triniaeth.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau diogelu a rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n dda ac roedd arweinwyr a oedd yn ymwybodol o'u rôl wedi'u henwebu ar gyfer y meysydd hyn a meysydd eraill. Yn ôl yr olwg, roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r adran radioleg gyfan yn ogystal â gweithdrefnau penodol ar gyfer meddygaeth niwclear. Er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau cysondeb, dylai gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer radioleg ac ar gyfer meddygaeth niwclear gael eu hadolygu a'u cyfuno fel y bo'n briodol.

Gallai'r staff gael cynghor arbenigol ac nid oeddent erioed wedi cael problem cysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol. Roedd yr arbenigwr ffiseg feddygol yn rhoi mewnbyn a chymorth da.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyfuno gweithdrefnau radioleg a meddygaeth niwclear er mwyn dileu unrhyw ddyblygu a sicrhau cysondeb. Ystyried cael un set o weithdrefnau ar gyfer yr adran gyfan, gan gynnwys meddygaeth niwclear
- Sicrhau bod gweithdrefnau'n gyfredol ac yn rhoi disgrifiad cywir o sut y dylai'r adran weithredu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn darparu rhaglen dda ac roedd enghreifftiau o archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal
- Roedd yr arbenigwr ffiseg feddygol yn cael ei gynnwys yn dda er mwyn cael cyngor a mewnbwn
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi disgrifio'r gweithdrefnau a'r protocolau amrywiol sydd ar waith yn yr adran yn gywir.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y Prif Weithredwr oedd y cyflogwr dynodedig o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai'r gweithdrefnau a'r polisiau sy'n nodi'r trefniadau gweithio a llywodraethu yn cael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r rhai a ddisgrifiwyd yn gywir.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y sefydliad yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd y staff hefyd yn cael eu cylchdroi o gwmpas yr adran ehangach ac yn cael cyfleoedd hyfforddiant i gael profiad o dechnegau eraill.

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant gorfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sicrhau bod arfarniadau a hyfforddiant y staff yn gyfredol
- Roedd yr uwch-aelodau o'r staff yn dangos parodrwydd i wella
- Roedd adborth y staff yn yr holiadur yn gadarnhaol ar y cyfan.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyhoeddodd AGIC holiaduron ar-lein ac ar bapur er mwyn caffael safbwyntiau'r cleifion ar wasanaethau a gynhaliwyd yn yr adran er mwyn cyd-fynd ag arolygiad AGIC ym mis Mawrth 2024. Cafwyd cyfanswm o bump ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn; mae angen cadw'r nifer bach hwn mewn cof wrth ystyried yr ymatebion hyn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ym mhob maes, gyda phob claf a atebodd yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Gweler isod ddau sylw a gafwyd am y gwasanaeth:

*“Roedd y staff yn broffesiynol iawn, yn wybodus, yn ddymunol ac wedi fy nhrin fel unigolyn gan roi sylw personol i mi.”*

*“Glân iawn ac roedd y staff proffesiynol wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Roedd posteri dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion am gael triniaeth pelydr-X a meddygaeth niwclear ac yn eu cynghori i hysbysu staff os oeddent o bosibl yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron. Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion am fanteision a risgiau cysylltiedig y cysylltiad bwriadol.

Gwelsom fod deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd aros yn yr adran meddygaeth niwclear. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision peidio ag ysmegu.

##### Gofal Urddasol a Pharchus

Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion a nodwyd gennym fod y staff yn ymdrechu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion, er enghraifft, cloi drysau. Gwelsom fod yr holl staff yn trin y cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd.

Roedd pob un a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno



- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill glywed
- Bod y staff wedi gwranddo arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, roedd yr holl staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno.

### **Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn**

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am eu harchwiliad neu sgan. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar ôl eu harchwiliad neu sgan.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu harchwiliad neu sgan. Yn yr un modd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud, a bod y staff wedi gwranddo arnynt ac ateb eu cwestiynau.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cleifion yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Gwelwyd bod y cleifion sy'n mynychu'r adran yn cael gofal amserol.

Roedd pob un ond un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn yr arolwg yn cytuno bod yr amser aros rhwng yr atgyfeiriad a'r apwyntiad yn rhesymol. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision y driniaeth.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd yn rhaid i'r cleifion aros yn hir i gael eu gweld ar ôl cyrraedd yr ysbyty fel arfer. Pan oedd oedi annisgwyl, dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am y rhain a byddent yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Roedd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno eu bod wedi cael gwybod gan staff y dderbynfa faint o amser y byddent yn debygol o aros.

## **Teg**

## **Cyfathrebu ac Iaith**

Gwelsom fod posteri dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion wedi'u harddangos yn glir yn yr adran. Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n dda yn yr adran ond nid oedd y rhan fwyaf o'r staff yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn y brif dderbynfa yn defnyddio rhai ymadroddion Cymraeg â phob claf. Gwelsom lythrau apwyntiadau a dogfennau a oedd yn nodi'r camau nesaf ar gyfer cleifion, ac roedd y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd dolen sain yn y brif dderbynfa. Ar ôl iddynt gyrraedd y brif dderbynfa, byddai rhywun yn tywys y cleifion i'r adran meddygaeth niwclear; ni fyddent yn cael eu hanfon yno ar eu pen eu hunain. Yn ogystal, roedd gan yr adran gydlynedd llif cleifion er mwyn atal cleifion rhag crwydro o gwmpas yr adran. Roedd yr adran yn cymryd rhan ym Mhrosiect SEARCH, sef elusen sy'n helpu oedolion ifanc gydag anabledd dysgu neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig i ddod o hyd i gyflogaeth gyda thâl trwy interniaethau a phrofiad gwaith.

Dywedodd dau aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn siarad Cymraeg. Dywedodd un ei fod yn gwisgo laniard neu fathodyn 'Iaith Gwaith'. Dywedodd un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur ei fod yn siarad Cymraeg hefyd.

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r trefniadau sydd ar waith i helpu pobl ag anawsterau clywed a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Roeddent yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu a oedd ar gael.

## **Hawliau a Chydraddoldeb**

Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith i wneud y gwasanaeth yn hygyrch i gleifion, fel mynediad i gadeiriau olwyn. Roedd yr adran yn hygyrch ac yn cynnwys drysau llydan, coridorau clir ac ystafelloedd trin mawr â mynediad gwastad.

Roedd gan y bwrdd iechyd sawl grŵp cynhwysiant. Roedd amrywiaeth o staff o wledydd gwahanol yn cael eu cyflogi yn y brif adran. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai pawb yn cael eu trin yn deg, heb wahaniaethu, yn unol â gwerthoedd y bwrdd iechyd. Roedd gan y bwrdd iechyd hyrwyddwyr cydraddoldeb hefyd.

Roedd y staff yn gweithio mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn orfodol ar gyfer pob aelod o'r staff. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau'r cwrs hwn ar-lein. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a

hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r adran. Gallent gadarnhau'r trefniadau sydd ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad.

Dywedodd pob aelod o'r staff yn yr holiadur fod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle a bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

### Dyletswyddau'r Cyflogwr: Sefydlu Gweithdrefnau, Protocolau a Rhaglenni Sicrhau Ansawdd Cyffredinol

#### *Gweithdrefnau a Phrotocolau*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig sefydledig ar gyfer yr adran meddygaeth niwclear fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Roedd Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio ar gael hefyd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble i gael gafael ar weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n berthnasol i'w hymarfer. Roeddent o'r farn bod y gweithdrefnau'n glir ac yn hawdd eu deall a gwnaethant ddweud y byddent yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i weithdrefnau ar lafar neu drwy e-bost. Roedd y gweithdrefnau a welsom yn dangos bod mesurau rheoli ansawdd a rheoli dogfennau priodol ar waith.

Roedd rhaglen sicrhau ansawdd addas ar waith ar gyfer protocolau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr. Clywsom y byddent yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith bob dwy flynedd. Roeddent wedi cael eu diweddarau a'u llofnodi'n ddiweddar gan y Rheolwr Radioleg.

Dywedodd y staff eu bod yn cael e-bost yn cynnwys dolen i weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ar y rhwydwaith ar ôl unrhyw newidiadau a bod gofyn iddynt eu darllen a llofnodi cofnod i ddangos eu bod wedi darllen y gweithdrefnau a'u bod yn eu deall. Roedd protocolau delweddu ysgrifenedig ar gyfer technegau amrywiol yn cael eu hadolygu gan radiograffydd arweiniol y dechneg briodol ac yna byddai'r protocolau ysgrifenedig yn cael eu diwygio fel y bo'n briodol gan nodi'r dyddiad newydd arnynt.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r adran radioleg gyfan yn ogystal â gweithdrefnau penodol ar gyfer meddygaeth niwclear. Nodwyd nifer o anghysondebau rhwng y Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, gweithdrefnau'r cyflogwr radioleg a'r gweithdrefnau meddygaeth niwclear. Nodwyd hefyd fod gwahaniaeth ym manylder y wybodaeth yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer radiograffeg ddiagnostig a meddygaeth niwclear. Mae angen sicrhau bod gweithdrefnau'r cyflogwr radioleg, y polisi diogelu rhag ymbelydredd Ïoneiddio a'r gweithdrefnau meddygaeth niwclear yn gyson, yn briodol ac yn cael eu hadolygu er mwyn dileu unrhyw ddyblygu. Dylid ystyried cyfuno gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr radioleg a'r gweithdrefnau meddygaeth niwclear gan greu un set o weithdrefnau lle bo hynny'n briodol.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y polisi diogelu rhag ymbelydredd ïoneiddio, y gweithdrefnau meddygaeth niwclear a gweithdrefnau'r cyflogwr radioleg yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb a dileu unrhyw ddyblygu. Dylid ystyried cael un set o weithdrefnau ar gyfer radioleg a meddygaeth niwclear.

#### *Canllawiau Atgyfeirio*

Roedd gan y cyflogwr ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar gyfer archwiliadau a gyflawnir yn yr adran. Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer atgyfeirio a meini prawf atgyfeirio hefyd. Roedd trefniadau addas wedi'u nodi i sicrhau bod y rhain ar gael i'r unigolion sydd â hawl i atgyfeirio.

Roedd system SharePoint (ardal a rennir) yr adran radioleg yn cynnwys dolenni i iRefer (er mwyn helpu i bennu'r ymchwiliadau delweddu gorau, mwyaf priodol a mwyaf diogel) ac roedd ar gael i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn GIG Cymru. Roedd canllawiau atgyfeirio clinigol ar gael ar y fewnwyd.

#### *Lefelau Cyfeirio Diagnostig*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith ar gyfer defnyddio ac adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau meddygaeth niwclear a oedd yn cael eu cyflawni yn yr adran. Roedd gweithdrefn meddygaeth niwclear ar gael hefyd a oedd yn cyfeirio'n benodol at y defnydd a wneir o lefelau cyfeirio diagnostig ym maes meddygaeth niwclear a'r gwerthoedd isaf ac uchaf ar gyfer yr archwiliadau mwyaf cyffredin.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gwybod ble i gael gwybodaeth am y lefelau cyfeirio diagnostig, sut i gymhwyso'r rhain a beth y dylent ei wneud pe bai dosau'n rhagori ar y lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson.

Gwnaethom gadarnhau bod lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi cael eu sefydlu ar gyfer archwiliadau meddygaeth niwclear. Lle bo'r rhain ar gael, roeddent yn gyfwerth â'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu islaw'r lefelau hynny. Nodwyd bod yr arfer hon yn ganmoladwy. Fodd bynnag, nodwyd bod dogfennaeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr ystafell chwistrellu yn cynnwys rhestr o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol a rhestr o'r holl lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol. Dylid cyfuno'r rhain er mwyn creu un rhestr sy'n nodi'r lefelau cyfeirio diagnostig a ddefnyddir ar gyfer pob triniaeth.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y rhestrau o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol yn cael eu cyfuno i greu un rhestr sy'n nodi'r lefelau cyfeirio diagnostig a ddefnyddir ar gyfer pob triniaeth i'w harddangos yn yr ystafell chwistrellu.

Gwelwyd tystiolaeth bod archwiliadau o lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu cynnal bob yn ail fis, sy'n ystyried pob dos a roddwyd.

### *Ymchwil Feddygol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gysylltiadau unigolion fel rhan o raglenni ymchwil biofeddygol a meddygol. Clywsom nad oedd cysylltiadau ymchwil yn cael eu cynnal ym maes meddygaeth niwclear a bod y weithdrefn wedi'i llunio rhag ofn y bydd angen cynnal ymchwil feddygol yn y dyfodol. Os caiff ymchwil ei chynnal, dylid adolygu gweithdrefnau'r cyflogwr.

### *Hawliau*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr. Roedd gwybodaeth am hawliau deiliaid dyletswydd wedi'i chynnwys yn y polisi diogelu rhag ymbelydredd ìoneiddio hefyd.

Nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr na'r polisi diogelu rhag ymbelydredd ìoneiddio yn nodi'n glir sut roedd y cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg o roi hawliau i unigolion priodol yn y fframwaith. Roedd nifer o anghysondebau rhwng y polisi diogelu rhag ymbelydredd ìoneiddio a gweithdrefn y cyflogwr ynghylch y prosesau ar gyfer rhoi hawliau a dylai'r rhain gael eu datrys. Roedd yr enghreifftiau hyn yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr clinigol yr adran sy'n derbyn atgyfeiriadau a oedd yn gyfrifol am roi hawliau i atgyfeirwyr ac agweddau eraill. Mewn meysydd eraill, adran glinigol yr unigolyn sy'n gyfrifol am y gweithredwr neu'r ymarferydd oedd yn gyfrifol
- Cyfeiriadau at ddeiliaid tystysgrif ARSAC yn dirprwyo yn ysgrifenedig
- Nid oedd y tablau yng ngweithdrefn y cyflogwr yn cyd-fynd â'r rhai yn y polisi diogelu rhag ymbelydredd ìoneiddio, a gallai'r dyblygu posibl hwn beri dryswch
- Yn achos rhai gofynion hyfforddiant, roedd 'dim' (*none*) wedi'i gofnodi.

**Mae angen i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn berthnasol y cyflogwr a'r polisi diogelu rhag ymbelydredd ìoneiddio yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y broses ar gyfer rhoi hawliau yn gyson rhwng y ddwy ddogfen ac yn cyd-fynd ag ymarfer cyfredol.**

Gwelsom hefyd gofnodion hyfforddiant a hawliau pedwar aelod o'r staff o dan y Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol), gan gynnwys un radiologydd ymgynghorol. Gwelwyd anghysondebau yn y cofnodion rhwng lefel y manylder ynghylch cwmpas ymarfer grwpiau staff gwahanol a'r terminoleg a

ddefnyddir. Yn benodol, roedd anghysondebau i'w gweld ar gyfer y radiolegwyr ymgynghorol pan roeddent yn gweithio fel gweithredwyr.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y ddogfennaeth hawliau ar gyfer y staff i gyd yn cynnwys eu cwmpas ymarfer ar gyfer pob un o'u rolau fel deiliaid dyletswydd.**

Er bod dyddiadau wedi'u nodi ar yr hawl ar gyfer pob maes, roedd un "dyddiad hawl" ychwanegol hefyd ond nid oedd yn glir at beth roedd hwnnw'n cyfeirio. Nodwyd hefyd fod dau aelod o'r staff wedi llofnodi cofnodion hyfforddiant ei gilydd i gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ac nid yw hyn yn briodol.

**Mae angen i'r cyflogwr sicrhau:**

- **Bod dogfennaeth hawliau'n cael ei chwblhau'n llawn, gyda'r wybodaeth briodol am hawliau**
- **Dylai cofnodion hyfforddiant y staff gael eu diweddarau er mwyn sicrhau bod cymwyseddau'r staff wedi cael eu hasesu gan unigolyn priodol y mae'r cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg honno iddo.**

Roedd y polisi diogelu rhag ymbelydredd Ïoneiddio yn nodi y byddai cyfarwyddwr clinigol y gwasanaeth derbyn yn anfon llythyr at atgyfeirwyr meddygol i roi hawliau iddynt, ond dim ond yn achos atgyfeirwyr anfeddygol roedd hyn yn digwydd. Nid oedd atgyfeirwyr meddygol yn cael gwybod eu bod yn ddeiliaid hawl ac mae angen adolygu hyn.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod llythyr yn cael ei anfon at yr atgyfeirwyr meddygol yn eu hysbysu am eu hawl, fel sy'n ofynnol gan y polisi diogelu rhag ymbelydredd Ïoneiddio.**

Roedd canllawiau awdurdodi diwygiedig ar waith ar gyfer rhoi cynhyrchion radiofferyllol. Nid oedd diben y ddogfen hon yn glir yn fframweithiau rheoliadol y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd angen i'r adran ystyried yr angen am y ddogfen hon ochr yn ochr â'r ddogfennaeth sydd eisoes ar gael ac, fel y bo angen, ddiweddarau'r ddogfen hon yn unol â'r derminoleg sy'n ymwneud â hawl unigolion i roi cynhyrchion radiofferyllol.

**Mae angen i'r cyflogwr adolygu'r defnydd a wneir o'r canllawiau awdurdodi diwygiedig ar gyfer rhoi cynhyrchion radiofferyllol a diweddarau'r canllawiau i adlewyrchu'r broses rhoi hawliau ar gyfer unigolion y mae hawl ganddynt roi cynhyrchion radiofferyllol.**

Gwnaethom gadarnhau bod gan y cyflogwr a'r ymarferwyr drwyddedau dilys er mwyn cynnal cysylltiadau bwriadol sy'n cynnwys defnyddio sylweddau ymbelydrol.

### *Adnabod Cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer adnabod unigolion a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn i adnabod unigolion yn gywir. Yn ogystal, roeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn er mwyn adnabod unigolion yn gywir nad ydynt efallai yn gallu adnabod eu hunain. Dywedodd y staff y byddent yn cofnodi pa weithredwr/gweithredwyr a wnaeth adnabod yr unigolyn, a byddai'r gweithredwr a gadarnhaodd pwy oedd yr unigolyn yn llofnodi neu'n nodi ei flaenlythrennau wrth ymyl y manylion ar yr atgyfeiriad er mwyn cadarnhau ei fod wedi cynnal y gwiriadau'n foddhaol. Pan fo mwy nag un gweithredwr dan sylw, y gweithredwr sy'n rhoi'r cynnyrch radiofferyllol a oedd yn gyfrifol am wirio manylion adnabod y claf. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr na chofnodion lle roedd cynhyrchion radiofferyllol wedi cael eu rhoi gyda sawl pwynt cyswllt (e.e. hybrid) mor glir ag y gallent fod ac nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyson ar ffurflenni atgyfeirio.

### **Mae angen i'r cyflogwr sicrhau:**

- **Bod gweithdrefn y cyflogwr yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ddangos bod gwiriadau o fanylion adnabod cleifion wedi cael eu cynnal lle bo sawl cysylltiad neu weithredwr dan sylw**
- **Bod ffurflenni atgyfeirio'n nodi'n glir pan fo sawl gweithredwr a phwynt cyswllt.**

### *Unigolion o Oedran Beichiogi (Holi am Feichiogrwydd)*

Roedd poster wedi'u harddangos yn glir yn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n feichiog neu a allai fod yn feichiog neu sy'n bwydo ar y fron, y dylent hysbysu'r staff cyn cael archwiliad neu sgan. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg a defnyddiwyd pictogramau addas hefyd. Roedd y llythyrau apwyntiadau'n gofyn i'r cleifion gysylltu â'r adran os oedd unrhyw siawns y gallent fod yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi disgrifio'r weithdrefn ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a oeddent yn feichiog neu'n bwydo ar y fron.

Nodwyd gennym fod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a yw'r unigolyn yn feichiog, neu o bosibl yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron ar gyfer archwiliadau sy'n cael eu cyflawni yn yr adran. Gwnaethom nodi y gallai rhai gwelliannau gael eu gwneud i egluro'r



gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r broses holi am feichiogrwydd. Roedd un o'r gwelliannau hyn yn ymwneud â'r ffaith bod angen i'r gweithredwr lofnodi'r ffurflen atgyfeirio ond nad oedd lle bob amser ar bob ffurflen atgyfeirio i wneud hyn. Pe na fyddai'r claf yn gallu ymateb i gwestiynau am feichiogrwydd, dywedodd y staff y byddent yn cysylltu â'r ymarferydd ond nid oedd hyn wedi'i nodi yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn berthnasol y cyflogwr yn cynnwys y broses ar gyfer gwirio statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron pan na all y claf ymateb.**

Cawsom wybod bod bwrdd iechyd cyfagos wrthi'n treialu gweithdrefn gwirio beichiogrwydd, a oedd yn cynnwys arweiniad ar gynhwysiant o ran rhywedd ac y byddai penderfyniad ar y pwynt hwn yn cael ei wneud a'i fabwysiadu drwy Gymru gyfan yn fuan.

#### *Manteision a Risgiau*

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw'r broses ar gyfer rhoi gwybodaeth ddigonol i'r unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio (neu ei gynrychiolydd) am fanteision cael y cysylltiad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos o ymbelydredd. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei thrafod cyn i'r dos gael ei roi a byddai taflen yn cael ei rhoi i'r claf ar ôl hynny.

Gwelsom weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth ysgrifenedig i bob claf neu gynrychiolydd y claf. Roedd llawer o ddyblygu i'w weld yn y rhain ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth yn anghyson, er enghraifft, nid oedd y cyngor yn cyd-fynd â'r daflen i gleifion ar fwydo ar y fron.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r wybodaeth yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth ysgrifenedig i'r claf er mwyn sicrhau cywirdeb a dileu unrhyw ddyblygu. Dylid ystyried cael un weithdrefn yn unig.**

Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i'r cleifion neu'u cynrychiolwyr ar ffurf y posteri a oedd yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd aros a'r taflenni gwybodaeth i gleifion a oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion cyn iddynt ddod i'r adran.

#### *Gwerthusiadau Clinigol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad clinigol ar gyfer pob cysylltiad. Roedd yr holl gofnodion a welsom ar y safle yn dangos bod gwerthusiadau clinigol yn cael eu cynnal yn amserol.

#### *Cysylltiadau â Delweddu Anfeddygol*

Er bod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer atgyfeirio a rheoli cysylltiadau anfeddygol, clywsom mai anaml iawn roedd cysylltiadau o'r fath yn digwydd ym maes meddygaeth niwclear.

#### **Dyletswyddau'r Cyflogwr - Archwiliad Clinigol**

Cafodd rhaglen gadarn o archwiliadau clinigol ei disgrifio a gwelwyd enghreifftiau da o archwiliadau clinigol a gynhaliwyd gan yr adran meddygaeth niwclear ac ym mhob un o'r technegau a ddefnyddiwyd. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr ymarferydd arweiniol yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses hon. Roedd y staff clinigol yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn archwiliadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt drwy ddiweddariadau a chyfarfodydd staff. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys tystiolaeth o'r ffordd roedd ymarfer wedi newid, y camau gweithredu gofynnol, pwy oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu na'r broses ar gyfer gwirio bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Roedd gweithdrefn berthnasol y cyflogwr yn nodi bod angen cynnwys yr holl elfennau hyn mewn adroddiad archwilio.

**Dylai'r cyflogwr sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu diweddarau fel eu bod bob amser yn cynnwys tystiolaeth o sut roedd ymarfer wedi newid, y camau gweithredu gofynnol, pwy oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu a'r broses ar gyfer gwirio bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau.**

Darparwyd enghreifftiau da hefyd o archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a byddai'n fuddiol sicrhau bod y rhain yn cael eu bwydo'n ôl yn rheolaidd i'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Roedd y weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer cynnal archwiliad clinigol o weithdrefnau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn ymwneud ag archwiliadau'r Rheoliadau'n unig ac nid archwiliadau clinigol ac, felly, dylid ailenwi'r weithdrefn hon. Yn ogystal, nid oedd yn glir bod adborth o archwiliadau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn cael ei rannu'n rheolaidd â'r arbenigwr ffiseg feddygol.

**Dylai'r cyflogwr ystyried y gwahaniaethau rhwng archwiliadau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ac archwiliadau clinigol a sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn a sicrhau bod adborth o archwiliadau'r Rheoliadau yn cael ei rannu â'r arbenigwr ffiseg feddygol.**

### **Dyletswyddau'r Cyflogwr - Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol**

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol. Roedd hyn yn cynnwys y camau ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau o'r fath, eu cofnodi ar Datix a chysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol, yn ogystal â'r angen i gyflawni'r ddyletswydd gonestrydd a hysbysu'r claf fel y bo angen. Gallent hefyd ddisgrifio sut roedd gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau'n cael eu rhannu â staff ar bob safle. Clywsom nad oedd AGIC wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar gyfer meddygaeth niwclear.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ac ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn cynnwys cyfeiriad at fanteision a risgiau a allai fod wedi'i gynnwys drwy gamgymeriad. Nodwyd nad oedd y diffiniad o gysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol (SAUE) na'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer hysbysiadau yn cyfeirio at y canllawiau gan AGIC.

**Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ac ymchwilio iddynt yn cael ei diweddarau er mwyn:**

- **Dileu cyfeiriadau nad ydynt yn berthnasol i'r weithdrefn**
- **Diweddarau'r diffiniad o gysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol i gyfeirio at y canllawiau a gefnogir gan AGIC**
- **Cyfeirio at y meini prawf hysbysu sy'n ofynnol gan AGIC.**

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd yr holiadur

- Bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau
- Pe bai ganddynt bryderon am ymarfer anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano.

Dywedodd pob un ond un o'r staff a gwblhaodd yr arolwg:

- Eu bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt
- Bod eu sefydliad yn cymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto
- Y byddai'r unigolion dan sylw'n cael eu trin yn deg
- Y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am arfer clinigol anniogel.

Fodd bynnag, roedd llai o'r staff yn teimlo'n hyderus y byddai eu pryderon yn cael eu trin.

### **Dyletswyddau'r Ymarferydd, y Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr**

Gallai'r adran ddisgrifio'r camau a gymerir i sicrhau bod yr atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr yn cydymffurfio â gweithdrefnau ysgrifenedig. Roedd yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd radioleg ddarllen a deall gweithdrefnau'r cyflog a llofnodi datganiad i gadarnhau eu dealltwriaeth. Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ar gael i'r holl staff radioleg drwy'r gyriant a rennir. Roedd yn ofynnol i'r ymarferydd a'r gweithredwr lofnodi datganiadau blynyddol i gadarnhau eu bod wedi darllen y gweithdrefnau.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar gyfer hyfforddiant ymarferol i ymarferwyr a gweithredwyr, yn ymwneud â defnyddio cyfarpar yn bennaf, ac roedd gweithdrefn meddygaeth niwclear ar gael mewn perthynas â'r cofnod o gymhwysedd y staff a chwmpas eu hawliau. Radiograffydd arolygu arweiniol y safle a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu ar ddefnyddio cyfarpar radiolegol. Fodd bynnag, roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cynnwys fersiynau gwahanol o ffurflenni i'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau ac mewn rhai achosion, gwelwyd bod staff yn llofnodi cofnodion ei gilydd i gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant. Roedd pob aelod o'r staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn gweithio o fewn ei allu a'i faes ymarfer.

### **Rhaid i'r cyflogwr sicrhau:**

- **Bod gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer hyfforddiant ymarferol i ymarferwyr a gweithredwyr yn cael ei hadolygu a'i bod yn cynnwys y cyfarpar a'r tasgau meddygaeth niwclear perthnasol fel y bo'n briodol**
- **Bod y weithdrefn mewn perthynas â'r cofnod o gymhwysedd y staff a chwmpas eu hawliau yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â gweithdrefn y cyflogwr a'i bod yn cynnwys y ffurflenni cywir a gaiff eu defnyddio yng nghofnodion hyfforddiant y staff.**

Clywsom fod ymarferwyr yn cael arfarniadau drwy'r System Ailddilysu Arfarniadau Meddygol (MARS), sef system sydd ar waith drwy Gymru gyfan sy'n hwyluso'r broses o arfarnu ac ailddilysu meddygon, a bod y system hon yn cynnwys cadarnhad a chofnod o hyfforddiant a chymhwysedd parhaus yr ymarferwyr. Roedd angen cynnwys hyn yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau'r cyflogwr yn adlewyrchu'r defnydd a wneir o MARS a chwmpas MARS ar gyfer cofnodi cofnodion hyfforddiant ymarferwyr.**

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar atgyfeiriadau. Edrychwyd ar sampl o ffurflenni atgyfeirio ar y safle. Roedd pob atgyfeiriad wedi cael ei wneud yn unol â'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio. Fodd bynnag, yn achos rhai o'r atgyfeiriadau, nid oedd yn glir pwy oedd yr atgyfeiriwr oherwydd pan roedd atgyfeiriad yn cael ei anfon gan gofrestrydd (a'i lofnodi ganddo), roedd yr atgyfeiriad yn cael ei gofnodi o hyd fel pe bai wedi cael ei anfon gan yr ymgynghorydd. Nid oedd y broses hon yn glir oherwydd, yn ôl y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), yr unigolyn a lofnododd y ffurflen, os oedd ganddo hawl briodol i wneud hynny, ddylai gael ei nodi fel yr atgyfeiriwr.

**Dylai'r cyflogwr sicrhau mai'r unigolyn sy'n llofnodi'r ffurflen fel atgyfeiriwr a gaiff ei gydnabod fel yr atgyfeiriwr.**

### **Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Unigol**

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn y cyflogwr yn adlewyrchu'r prosesau ym maes meddygaeth niwclear yn llawn ac nid oedd yn cyfeirio at ddeiliaid dyletswydd gan ddefnyddio terminoleg briodol gan gyfeirio at y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Byddai'n fuddiol adolygu'r weithdrefn hon er mwyn cadarnhau'r llinellau cyfrifoldeb ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â chyfiawnhau ac awdurdodi:**

- Yn adlewyrchu'r prosesau a ddefnyddir ym maes meddygaeth niwclear
- Yn cael ei hadolygu a'i diweddarau i gyfeirio at y deiliaid dyletswydd a'u cwmpas gan ddefnyddio terminoleg briodol gan gyfeirio at y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a chadarnhau llinellau cyfrifoldeb ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi.

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw nodi ble roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod cysylltiadau wedi'u hawdurdodi.

### **Optimeiddio**

O safbwynt optimeiddio, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r angen i dalu sylw penodol i grwpiau penodol o gleifion fel plant, unigolion lle na ellir diystyru'r posibilrwydd eu bod yn feichiog neu unigolion sy'n bwydo ar y fron. Roedd y staff wedi disgrifio trefniadau addas yr oedd ymarferwyr a staff yn eu dilyn i gadw dosau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Dywedodd staff fod yn rhaid i gleifion beichiog fod wedi cael trafodaeth â'r atgyfeiriwr ynghylch hyn a

gwnaethant gyfeirio hefyd at y ffactorau graddio ar gyfer cleifion pediatrig sy'n seiliedig ar bwysau.

### *Pediatreg*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gysylltiadau meddygol plant ac roedd gweithdrefn meddygaeth niwclear ar gael hefyd mewn perthynas â phrotocolau delweddu pediatrig, ond roedd anghysondebau rhyngddynt. Roedd y weithdrefn meddygaeth niwclear yn cyfeirio at gleifion pediatrig fel rhai o dan 16 oed ac roedd gweithdrefn y cyflogwr yn cyfeirio at yr ymarferydd fel radiograffydd, nad yw'n derm priodol nac yn berthnasol i feddygaeth niwclear.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer pediatreg yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y derminoleg yn gywir a chadarnhau'r ystod oedran y maent yn berthnasol iddi.**

Clywsom fod yr ymarferydd yn cael gwybod ar y pryd fod cleifion pediatrig yn cael eu trin. Roedd cyfarfod pediatrig yn cael ei gynnal unwaith y mis i'r clinigwyr drafod unrhyw achosion arbennig.

Trafododd y staff y dulliau graddio priodol a ddefnyddir i optimeiddio dosau pediatrig ac roedd yn gadarnhaol nodi bod protocolau pediatrig wedi'u rhagosod ar y sganiwr.

### *Gofalwyr neu Gysurwyr*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas er mwyn pennu cyfyngiadau dosau ac roedd canllawiau ar gael ar gysylltiadau a fyddai'n effeithio ar ofalwyr a chysurwyr.

Roedd set glir o ganllawiau awdurdodi wedi'i sefydlu ar gyfer gweithredwyr i awdurdodi cysylltiadau a fyddai'n effeithio ar ofalwyr a chysurwyr meddygaeth niwclear. Roedd hyn yn cynnwys amgylchiadau lle na fyddai'r canllawiau awdurdodi yn gymwys, fel yn achos gofalwr neu gysurwr beichiog lle y byddai'n rhaid i'r ymarferydd roi cyfiawnhad uniongyrchol.

### **Cyngor Arbenigol**

Gwnaethom gadarnhau fod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael cyngor arbenigol ac nad oeddent erioed wedi cael problem cysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn cael eu cynnwys a'u bod yn

amlwg yn ymgysylltu â'r adran er nad oeddent ar y safle bob dydd. Roedd yn amlwg bod cyfathrebu da rhwng yr arbenigwyr ffiseg feddygol a'r staff meddygaeth niwclear. Roedd y cydweithio hwn yn ymestyn i archwiliadau'r arbenigwr ffiseg feddygol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a oedd yn nodedig er eu bod yn dilyn cylch dwy flynedd. Ni fynegodd yr arbenigwyr ffiseg feddygol unrhyw bryderon am weithrediad yr adran meddygaeth niwclear.

### **Cyfarpar: Dyletswyddau Cyffredinol y Cyflogwr**

Roedd rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer yr adran meddygaeth niwclear mewn perthynas â'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer cynnal profion derbyn ar gyfarpar newydd, cynnal profion perfformiad rheolaidd a chynnal profion perfformiad ar ôl unrhyw waith cynnal a chadw ar y cyfarpar. Byddai Pwyllgor Diogelwch Rhag Ymbelydredd y Bwrdd Iechyd yn cael gwybod am unrhyw broblemau o ran sicrhau ansawdd cyfarpar.

Yn ogystal, disgrifiwyd proses addas ar gyfer nodi, rhoi gwybod ac uwchgyfeirio diffygion ar gyfarpar i uwch-aelodau o staff fel y gellid cymryd camau priodol. Roedd hyn cynnwys symud cyfarpar o'r gwasanaeth. Roedd rhestrau o gyfarpar diweddar ar gael ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ac fe'u darparwyd i'w harolygu.

Disgrifiodd y staff y gweithdrefnau sicrhau ansawdd a ddefnyddir, yn unol â chynghor yr arbenigwr ffiseg feddygol. Nodwyd rhywfaint o ddyblygu rhwng y llawlyfr sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar meddygaeth niwclear a gweithdrefnau meddygaeth niwclear eraill ar brosesau sicrhau ansawdd. Dylai'r rhain gael eu hadolygu a'u cyfuno i greu un weithdrefn fel y bo'n briodol, er mwyn dileu unrhyw ddyblygu.

**Mae angen i'r cyflogwr ddileu unrhyw ddyblygu rhwng y llawlyfr sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill ym maes meddygaeth niwclear a chyfuno'r rhain yn y llawlyfr sicrhau ansawdd fel y bo'n briodol.**

Disgrifiwyd y broses ar gyfer hysbysu'r staff priodol am broblemau â chyfarpar ac roedd y broses hon yn addas.

## **Diogel**

### **Rheoli Risg**

Clywsom mai'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd oedd yn cwblhau'r asesiadau risg, gan gynnwys yr asesiadau risg ar gyfer codi a chario a'r asesiadau risg ymbelydredd. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal hefyd mewn perthynas â'r amgylchedd, cynhyrchion fferyllol a rhoi dosau.



Wrth fynd o amgylch yr adran, roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da yr olwg. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y staff sy'n gweithio yn yr adran nac i'r cleifion neu unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran.

Roedd arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd ymbelydredd ìoneiddio yn cael ei ddefnyddio.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau a threfniadau dihalogi addas ar waith. Roedd pob ardal yr oedd modd i gleifion fynd iddi yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd y cyfarpar hefyd yn ymddangos yn lân a disgrifiodd y staff weithdrefnau glanhau a dihalogi addas.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn yr ystafelloedd archwilio a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod modd iddynt gael gafael ar gyfarpar diogelu personol addas yn hwylus. Gwelsom hefyd fod weips glanhau ar gael i ddihalogi cyfarpar a rennir a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl yn hyn o beth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur fod yr adran yn lân a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, yn eu barn nhw.

Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'r holiadur o'r farn bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio a bod yr amgylchedd yn golygu bod modd rheoli heintiau yn effeithiol. Roedd pob aelod o'r staff, ond un, yn cytuno bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

### **Diogelu Plant a Diogelu Oedolion**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd a ble i gael gafael arnynt. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion ar gyfer pump aelod o'r staff a gwelsom fod y staff hyn wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant diogelu.

## **Effeithiol**



## **Cadw Cofnodion**

Gwnaethom wirio sampl o bum atgyfeiriad cyfredol a thri atgyfeiriad ôl-weithredol. Roedd yr atgyfeiriadau yn y sampl a welsom wedi cael eu cwblhau'n llawn ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod ffurflenni atgyfeirio gwahanol wedi cael eu defnyddio a oedd yn cynnwys gwybodaeth wahanol ac, o ganlyniad, nid oedd y ffurflenni wedi cael eu cwblhau mewn ffordd gyson ac nid oedd gwybodaeth bob amser wedi cael ei chynnwys yn y man penodol ar y ffurflen. Nid oedd bob amser yn glir o'r ffurflen atgyfeirio bod gwiriadau adnabod, prosesau cyfiawnhau neu awdurdodi wedi cael eu cwblhau'n briodol ac fel y nodir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr, yn enwedig pan fo sawl gweithredwr dan sylw.

**Mae'n ofynnol i'r cyflogwr adolygu'r ffurflenni atgyfeirio ochr yn ochr â'r weithdrefn ar gyfer cwblhau ffurflenni atgyfeirio er mwyn sicrhau bod y ffurflenni'n cael eu cwblhau mewn ffordd gyson. Yn ddelfrydol, dylid safoni'r dogfennau fel y gellir eu cwblhau'n haws.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Rhannodd AGIC holiadur ar-lein er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Ysbyty Tywysoges Cymru a'u profiad o weithio yno. Roedd yr holiadur yn ategu arolygiad AGIC a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024. Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan aelodau o'r staff.

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phob un ohonynt yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion ac yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty iddynt hwy eu hunain neu ffrindiau a theulu. Byddai pob un o'r ymatebwyr yn argymhell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo. Dyma ddau o'r sylwadau a gawsom am y lleoliad:

*“Tîm ardderchog o staff yn cydweithio'n dda ym maes meddygaeth niwclear yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac ar draws y bwrdd iechyd.”*

*“Lle cefnogol iawn i weithio. Mae'r uwch-reolwyr yn cyfathrebu â staff ar y graddau isaf. Bu cefnogaeth dda i newidiadau. Mae'r adran yn cael ei chefnogi'n dda gan y gwyddonwyr clinigol.”*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Y Prif Weithredwr oedd yn bennaf cyfrifol am weithredu'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) gyda thasgau, nid cyfrifoldeb, yn cael eu dirprwyo drwy'r strwythur rheoli. Roedd cyfrifoldebau allweddol y Prif Weithredwr a'r deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau wedi'u nodi yn y Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, a oedd yn dangos llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Er mwyn helpu'r Prif Weithredwr i gyflawni ei gyfrifoldebau, roedd yn dirprwyo cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod trefniadau diogelwch rhag ymbelydredd ar waith yn y gyfarwyddiaeth i'r Cyfarwyddwr Meddygol ac yna'r Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Radioleg. Hefyd, gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cynrychioli arferion gorau ac yn bodloni gofynion y rheoliadau.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff systemau priodol i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r polisi hwn ac ystyried materion yn ymwneud â diogelwch cleifion sy'n deillio o gysylltiadau meddygol o fewn y bwrdd iechyd.

Yn ogystal, roedd strwythur llywodraethu a rheoli clir i'w weld yn yr hunanasesiad a gwblhawyd mewn ffordd glir a chynhwysfawr ac fe'i cyflwynwyd yn unol â'r amserlen hefyd. Dangosodd y tîm rheoli ymrwymiad i ddysgu o ganfyddiadau arolygiad AGIC ac i wella lle y nodwyd bod angen gwneud hynny.

Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymgysylltu â'r staff yn rheolaidd, drwy gyfarfodydd ar bron bob lefel.

Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cadarnhaol gan y staff ynghylch rheolwyr uniongyrchol ac uwch-reolwyr. Roedd yn amlwg bod diwylliant da ar y safle gyda pharodrwydd i wella ac addasu prosesau a gwneud newidiadau lle bo angen.

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir ar eu gwaith. Roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Roedd pob un a ymatebodd yn cytuno y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu â thasg anodd yn y gwaith a bod eu uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion. Fodd bynnag, roedd llai o'r ymatebwyr (86%) yn teimlo bod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff. Roedd pob aelod o'r staff ond un o'r farn bod yr uwch-reolwyr yn weladwy.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Cawsom fanylion am niferoedd a chymysgedd sgiliau'r staff sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear neu ar ei rhan. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y niferoedd staffio'n briodol, os oedd y staff i gyd ar gael. Roedd uwch-aelodau o'r staff o'r farn bod nifer a chymysgedd sgiliau'r staff yn yr adran yn briodol. Roedd y staff hefyd yn cael eu cylchdroi o gwmpas yr adran ehangach a oedd yn dangos bod y gweithlu'n fedrus a bod prosesau uwchsgilio ar waith.

Disgrifiodd y staff ddwy raglen sefydlu a hyfforddiant i ddeiliaid dyletswydd newydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Byddai grwpiau staff eraill yn cael hyfforddiant sefydlu lleol wedi'i deilwra yn ôl y gofyn.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant gorfodol pump aelod o'r staff. Roedd y cofnodion hyn yn cynnwys manylion perthnasol ar gyfer yr hyfforddiant a'r hyn a oedd i'w ddisgwyl. Gwelsom dystiolaeth glir fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol perthnasol i'r lefel ofynnol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelu, symud a chodi a chario yn ddiogel a hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan y rheolwyr, roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant gorfodol.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod gwybodaeth am gwynion yn cael ei rhannu â'r staff a bod gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu â'r adran gyfan a'r sefydliad. Roedd dadansoddiad o wraidd y broblem yn cael ei gynnal ac roedd y canlyniadau'n cael eu rhannu â'r holl staff ar y safle, yn ogystal â'r grwpiau llywodraethu perthnasol.

Er bod dau allan o bump claf wedi dweud na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn am wasanaeth gwael pe byddent yn dymuno gwneud hynny, gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion am sut i roi adborth neu wneud cwyn.

Clywsom fod menter llesiant newydd wedi cael ei chyflwyno i gefnogi'r staff a bod y fenter hon wedi creu argraff ar y gwasanaeth llesiant. Roedd gwybodaeth am y gwasanaeth wedi cael ei rhannu â'r staff i gyd, ac roedd y wybodaeth hon yn gynhwysfawr iawn ac yn cyfeirio'r staff at lwybr. Roedd y staff yn gwybod sut i gael gafael ar unrhyw gymorth ychwanegol pe bai ei angen arnynt, gan gynnwys mentrau llesiant ac iechyd galwedigaethol.

Yn yr holiadur staff, roedd 86% o'r staff o'r farn nad oedd eu gwaith yn andwyol i'w hiechyd, bod eu patrwm gwaith / oddi ar ddyletswydd presennol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd a'u bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael. Roedd ychydig mwy o staff, sef 93%, o'r farn bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant.

Er bod 86% o'r staff wedi dweud bod adborth ar brofiad cleifion / defnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei gasglu yn yr adran, nid oedd y 14% arall yn gwybod. Hefyd, dywedodd 72% o'r staff eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, ond dywedodd 21% nad oeddent yn gwybod. Yn yr un modd, er bod 72% o'r staff wedi dweud bod adborth gan gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn yr hadran, dywedodd 28% nad oeddent yn gwybod.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau arfarniadau perfformiad a'u bod wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Hefyd, roedd pob un a ymatebodd i'r holiadur staff yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl a dywedodd pob un ond un ohonynt eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ychwanegol a gwblhawyd, gan gynnwys ymwybyddiaeth o anabledau dysgu, ymwybyddiaeth o'r

Gymraeg ac ymwybyddiaeth o ddementia. Roedd y cofnodion hyfforddiant, sydd ar gael ar y system cofnodion staff electronig, yn cael eu rheoli gan y Radiograffydd Arolygu - Ansawdd a Llywodraethu a oedd yn hysbysu'r staff bob mis pan roedd angen hyfforddiant perthnasol arnynt.

Dyweddodd pob un o'r staff a gwblhaodd yr holiadur:

- Bod eu sefydliad yn gefnogol
- Bod eu sefydliad yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau
- Mai gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth eu sefydliad
- Eu bod yn fodlon ar ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel
- Bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith.

Yn ogystal, dywedodd pob un ond un ohonynt eu bod yn gallu bodloni'r gofynion croes yn ystod eu hamser yn y gwaith. Dywedodd pob aelod o'r staff ond dau fod eu sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen ac roedd tua dwy ran o dair o'r staff a ymatebodd yn teimlo bod digon o staff i ganiatáu iddynt wneud eu gwaith yn gywir. Roedd 79% o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am newidiadau sy'n effeithio ar eu maes gwaith.

Er bod un ymatebydd wedi dweud wrthym ei fod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith, dywedodd pob aelod o'r staff fod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle.

**Dylai'r cyflogwr ystyried sylwadau'r staff a rhoi gwybod i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.**

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd a dywedodd uwch-aelodau o'r staff fod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn rhan o'r broses ymchwilio. Fodd bynnag, nid oeddent yn siŵr pwy oedd wedi cael yr hyfforddiant gan nad oedd yn orfodol.

Dyweddodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod ac yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn deall eu rôl o ran cyflawni'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Yn ogystal, gwnaethant ddweud bod eu sefydliad yn eu hannog i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Ysbyty Tywysoges Cymru, Yr Adran Meddygaeth Niwclear

**Dyddiad yr arolygiad:** 5 a 6 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**



# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Tywysoges Cymru, Yr Adran Meddygaeth Niwclear

**Dyddiad yr arolygiad:** 5 a 6 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nodwyd nifer o anghysondebau rhwng y Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, gweithdrefnau'r cyflogwr radioleg a'r gweithdrefnau meddygaeth niwclear. Nodwyd hefyd fod gwahaniaeth ym manylder y wybodaeth yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer radiograffeg ddiagnostig a meddygaeth niwclear. Mae angen sicrhau bod gweithdrefnau'r cyflogwr radioleg, y polisi diogelu rhag	Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y polisi diogelu rhag ymbelydredd Ïoneiddio, y gweithdrefnau meddygaeth niwclear a gweithdrefnau'r cyflogwr radioleg yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb a dileu unrhyw ddyblygu. Dylid ystyried cael un set o weithdrefnau ar gyfer radioleg a meddygaeth niwclear.	Rheoliad 6 (1) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Caiff anghysondebau rhwng y Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio a Gweithdrefnau'r Cyflogwr eu datrys a chaiff y dogfennau eu cyfuno i greu un set o weithdrefnau. Caiff y gweithdrefnau meddygaeth niwclear eu cynnwys yn y rhain.	Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	15 Awst 2024

<p>ymbelydredd ìoneiddio a'r gweithdrefnau meddygaeth niwclear yn gyson, yn briodol ac yn cael eu hadolygu er mwyn dileu unrhyw ddyblygu. Dylid ystyried cyfuno gweithrefnau ysgrifenedig y cyflogwr radioleg a'r gweithdrefnau meddygaeth niwclear gan greu un set o weithdrefnau lle bo hynny'n briodol.</p>					
<p>Nodwyd bod dogfennaeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr ystafell chwistrellu yn cynnwys rhestr o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol a rhestr o'r holl lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol. Dylid cyfuno'r rhain er mwyn creu un rhestr sy'n nodi'r lefelau cyfeirio diagnostig a ddefnyddir ar gyfer pob triniaeth.</p>	<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y rhestrau o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol yn cael eu cyfuno i greu un rhestr sy'n nodi'r lefelau cyfeirio diagnostig a ddefnyddir ar gyfer pob triniaeth i'w harddangos yn yr ystafell chwistrellu.</p>	<p>Rheoliad 6 (5) (c) o Reoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Mae un rhestr o Lefelau Cyfeirio Diagnostig wedi cael eu gosod yn yr ystafell chwistrellu erbyn hyn</p>	<p>Uwch- arolygydd Meddygaeth Niwclear</p>	<p>Wedi'i gwblhau 15 Mai 2024</p>

<p>Nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr na'r polisi diogelu rhag ymbelydredd ïoneiddio yn nodi'n glir sut roedd y cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg o roi hawliau i unigolion priodol yn y fframwaith. Roedd nifer o anghysondebau rhwng y polisi diogelu rhag ymbelydredd ïoneiddio a gweithdrefn y cyflogwr ynghylch y prosesau ar gyfer rhoi hawliau a dylai'r rhain gael eu datrys.</p>	<p>Mae angen i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn berthnasol y cyflogwr a'r polisi diogelu rhag ymbelydredd ïoneiddio yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y broses ar gyfer rhoi hawliau yn gyson rhwng y ddwy ddogfen ac yn cyd-fynd ag ymarfer cyfredol.</p>	<p>Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(b) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff y ddwy ddogfen hyn eu hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb a sicrhau eu bod yn cynnwys ymarfer cyfredol.</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>
<p>Gwelsom hefyd gofnodion hyfforddiant a hawliau pedwar aelod o'r staff o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), gan gynnwys un radiolegydd ymgynghorol. Gwelwyd anghysondebau yn y cofnodion rhwng lefel y manylder ynghylch cwmpas</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y ddogfennaeth hawliau ar gyfer y staff i gyd yn cynnwys eu cwmpas ymarfer ar gyfer pob un o'u rolau fel deiliaid dyletswydd.</p>	<p>Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(b) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Mae cofnodion hawliau'n cael eu hailwampio'n llwyr drwy gyflwyno Tystysgrif Hawl ar gyfer pob unigolyn a fydd yn nodi'r hawl ar gyfer tasgau unigol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

<p>ymarfer grwpiau staff gwahanol a'r derminoleg a ddefnyddir. Yn benodol, roedd anghysondebau i'w gweld ar gyfer y radiolegwyr ymgynghorol pan roeddent yn gweithio fel gweithredwyr.</p>					
<p>Er bod dyddiadau wedi'u nodi ar yr hawl ar gyfer pob maes, roedd un "dyddiad hawl" ychwanegol hefyd ond nid oedd yn glir at beth roedd y dyddiad hwnnw'n cyfeirio.</p> <p>Nodwyd hefyd fod dau aelod o'r staff wedi llofnodi cofnodion hyfforddiant ei gilydd i gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ac nid yw hyn yn briodol.</p>	<p>Mae angen i'r cyflogwr sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod dogfennaeth hawliau'n cael ei chwblhau'n llawn, gyda'r wybodaeth briodol am hawliau</li> <li>• Dylai cofnodion hyfforddiant y staff gael eu diweddarau er mwyn sicrhau bod cymwyseddau'r staff wedi cael eu hasesu gan unigolyn priodol y mae'r cyflogwr</li> </ul>	<p>Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(b) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p> <p>Rheoliad 17 (1) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio</p>	<p>Mae cofnodion hawliau'n cael eu hailwampio'n llwyr drwy gyflwyno Tystysgrif Hawl ar gyfer pob unigolyn a fydd yn nodi'r hawl ar gyfer tasgau unigol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Caiff y 'dyddiad hawl' ychwanegol ei ddileu.</p> <p>Mae cofnodion hyfforddiant yn cael eu diweddarau i sicrhau bod</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>30 Medi 2024</p>

	wedi dirprwyo'r dasg honno iddo.	(Cysylltiad Meddygol) 2017	hyfforddiant yn cael ei awdurdodi'n gywir.		
Roedd y polisi diogelu rhag ymbelydredd ïoneiddio yn nodi y byddai cyfarwyddwr clinigol y gwasanaeth derbyn yn anfon llythyr at atgyfeirwyr meddygol i roi hawliau iddynt, ond dim ond yn achos atgyfeirwyr anfeddygol roedd hyn yn digwydd. Nid oedd atgyfeirwyr meddygol yn cael gwybod eu bod yn ddeiliaid hawl ac mae angen adolygu hyn.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod llythyr yn cael ei anfon at yr atgyfeirwyr meddygol yn eu hysbysu am eu hawl, fel sy'n ofynnol gan y polisi diogelu rhag ymbelydredd ïoneiddio.	Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(b) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae'r Cyfarwyddwr Clinigol a phartion eraill yn adolygu'r eitem hon i ddiffinio sut y caiff y gofyniad hwn ei fodloni	Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg, Cyfarwyddwr Clinigol	15 Awst 2024
Roedd canllawiau awdurdodi diwygiedig ar waith ar gyfer rhoi cynhyrchion radiofferyllol. Er nad oedd y ddogfen hon o fewn fframwaith y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio	Mae angen i'r cyflogwr adolygu'r defnydd a wneir o'r canllawiau awdurdodi diwygiedig ar gyfer rhoi cynhyrchion radiofferyllol a diweddarau'r canllawiau i adlewyrchu'r broses rhoi	Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(b) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae canllawiau awdurdodi diwygiedig yn cael eu dirwyn i ben a'u cynnwys yn y tystgrifau hawliau unigol. Caiff unrhyw newidiadau i	Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	15 Awst 2024

<p>(Cysylltiad Meddygol), roedd angen i'r adran ddiweddarau'r ddogfen hon i gyd-fynd â'r derminoleg ynghylch hawl unigolion i roi cynhyrchion radiofferyllol.</p>	<p>hawliau ar gyfer unigolion y mae hawl ganddynt roi cynhyrchion radiofferyllol.</p>		<p>derminoleg eu gwneud yn ystod y broses hon</p>		
<p>Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer adnabod yr unigolyn sy'n destun y cysylltiad yn gywir yn cynnwys manylion am y camau i'w cymryd pan na allai'r cleifion adnabod eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion am yr hyn y dylid ei wneud pan fyddai ffurflen atgyfeirio yn cynnwys sawl cysylltiad neu bwynt cyswllt.</p> <p>Ar y ffurflen hunanasesu, esboniwyd y byddai'r staff yn cofnodi pa weithredwr/gweithredwyr a wnaeth adnabod yr unigolyn,</p>	<p>Mae angen i'r cyflogwr sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod gweithdrefn y cyflogwr yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ddangos bod gwiriadau o fanylion adnabod cleifion wedi cael eu cynnal lle bo sawl cysylltiad neu weithredwr dan sylw</li> <li>• Bod ffurflenni atgyfeirio'n nodi'n glir pan fo sawl gweithredwr a phwynt cyswllt.</li> </ul>	<p>Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(a) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i gynnwys y sefyllfa hon</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

<p>a byddai'r gweithredwr a gadarnhaodd pwy oedd yr unigolyn yn llofnodi neu'n nodi ei flaenlythrennau wrth ymyl y manylion ar yr atgyfeiriad er mwyn cadarnhu ei fod wedi cynnal y gwiriadau'n foddhaol. Nid oedd tystiolaeth gyson o hyn ar y ffurflenni atgyfeirio.</p>					
<p>Gwnaethom nodi y gallai rhai gwelliannau gael eu gwneud i egluro'r gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r broses holi am feichiogrwydd. Roedd un o'r gwelliannau hyn yn ymwneud â'r ffaith bod angen i'r gweithredwr lofnodi'r ffurflen atgyfeirio ond nad oedd lle ar y ffurflen iddo wneud hynny. Yn ogystal, roedd angen i'r weithdrefn nodi bod angen cysylltu â'r ymarferydd os nad oedd gan</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn berthnasol y cyflogwr yn cynnwys y broses ar gyfer gwirio statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron pan na all y claf ymateb a chytundeb dilynol yr ymarferydd.</p>	<p>Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(c) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i gynnwys y sefyllfa hon</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

<p>glaf alluedd neu os na allai'r claf ymateb a chadarnhau ei statws beichiogrwydd.</p>					
<p>Gwelsom weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth ysgrifenedig i bob claf neu gynrychiolydd y claf. Roedd llawer o ddyblygu rhyngddynt ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn cyfeirio at y weithdrefn meddygaeth niwclear gyda'r wybodaeth i'w darparu. Yn ogystal, roedd y weithdrefn meddygaeth niwclear yn nodi mai'r ymarferydd oedd yn gyfrifol am sicrhau bod cyngor ar gael er mai'r cyflogwr oedd yn gyfrifol am hyn fel arfer. Nid oedd y cyngor yn cyd-fynd â'r daflen</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r wybodaeth yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth ysgrifenedig i'r claf er mwyn sicrhau cywirdeb a dileu unrhyw ddyblygu. Dylid ystyried cael un weithdrefn yn unig.</p>	<p>Rheoliad 12 (6) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefnau'r cyflogwr eu diweddarau a chaiff unrhyw achosion o ddyblygu eu dileu. Caiff y gweithdrefnau i gyd eu cynnwys mewn un ddogfen.</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>



i gleifion ar fwydo ar y fron chwaith.					
<p>Roedd yr enghreifftiau o'r archwiliadau a ddarparwyd ar ffurf cyflwyniadau. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod dwy o'r dogfennau a ddarparwyd yn cynnwys tystiolaeth o sut roedd ymarfer wedi newid, y camau gweithredu gofynnol, pwy oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu na'r broses ar gyfer gwirio bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Yn ogystal, nid oedd y cyflwyniadau'n cynnwys yr holl elfennau sydd eu hangen mewn adroddiad archwilio, fel y nodir yng ngweithdrefn berthnasol y cyflogwr.</p>	<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu diweddarau fel eu bod bob amser yn cynnwys tystiolaeth o sut roedd ymarfer wedi newid, y camau gweithredu gofynnol, pwy oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu a'r broses ar gyfer gwirio bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau.</p>	<p>Rheoliad 7 o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Mae dogfennau archwilio wedi cael eu diweddarau i gynnwys tystiolaeth o sut y cafodd ymarfer ei newid, ynghyd â'r camau a gymerwyd. Mae perchennog y camau gweithredu'n gyfrifol am rannu canlyniad yr archwiliad drwy e-bost, gweithdai DPP a sesiynau adborth.</p>	<p>Radiograffydd Arolygu - Archwilio</p>	<p>Cwblhawyd 15 Mai 2024</p>

<p>Roedd y weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer cynnal archwiliad clinigol o weithdrefnau sy'n ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn ymwneud ag archwiliadau'r Rheoliadau yn unig ac nid archwiliadau clinigol.</p>	<p>Dylai'r cyflogwr ystyried y gwahaniaethau rhwng archwiliadau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ac archwiliadau clinigol a sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn a sicrhau bod adborth o archwiliadau'r Rheoliadau yn cael ei rannu â'r arbenigwr ffiseg feddygol.</p>	<p>Rheoliad 7 o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i fynd i'r afael â hyn.</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>
<p>Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ac ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn cynnwys cyfeiriad at fanteision a risgiau a allai fod wedi cael ei gynnwys drwy gamgymeriad ac roedd angen ei diweddarau er mwyn cynnwys y diffiniad o</p>	<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ac ymchwilio iddynt yn cael ei diweddarau er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dileu cyfeiriadau nad ydynt yn berthnasol i'r weithdrefn</li> </ul>	<p>Rheoliad 8 (4) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i fynd i'r afael â'r mater hwn</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

<p>gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol. Yn ogystal, mae angen gwella'r cyfeiriad at y meini prawf ar gyfer hysbysu AGIC.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau'r diffiniad o gysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol i gyfeirio at y canllawiau a gefnogir gan AGIC</li> <li>• Cyfeirio at y meini prawf hysbysu sy'n ofynnol gan AGIC.</li> </ul>				
<p>Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar gyfer hyfforddiant ymarferol i ymarferwyr a gweithredwyr, yn ymwneud â defnyddio cyfarpar yn bennaf. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn hon yn cynnwys eitemau meddygaeth niwclear fel y cyfarpar perthnasol a rhoi cynhyrchion radiofferylol. Roedd yr elfennau hyn wedi'u cynnwys yn y weithdrefn meddygaeth niwclear ar</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer hyfforddiant ymarferol i ymarferwyr a gweithredwyr yn cael ei hadolygu a'i bod yn cynnwys y cyfarpar a'r tasgau meddygaeth niwclear perthnasol fel y bo'n briodol</li> </ul>	<p>Rheoliad 6 (3) (b) rheoliad 17 (1) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i sicrhau eglurder a chaiff dull safonol ei ddilyn ym mhob dogfen</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

<p>gyfer y cofnod o gymhwysedd y staff a chwmpas eu hawliau. Fodd bynnag, roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cynnwys fersiynau gwahanol o ffurflenni i'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y weithdrefn mewn perthynas â'r cofnod o gymhwysedd y staff a chwmpas eu hawliau yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â gweithdrefn y cyflogwr a'i bod yn cynnwys y ffurflenni cywir a gaiff eu defnyddio yng nghofnodion hyfforddiant y staff.</li> </ul>				
<p>Clywsom fod ymarferwyr yn cael arfarniadau drwy'r System Ailddilysu Arfarniadau Meddygol (MARS), sef system sydd ar waith drwy Gymru gyfan sy'n hwyluso'r broses o arfarnu ac ailddilysu meddygon, a bod y system hon yn cynnwys cadarnhad a chofnod o hyfforddiant a chymhwysedd</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau'r cyflogwr yn adlewyrchu'r defnydd a wneir o MARS a chwmpas MARS ar gyfer cofnodi cofnodion hyfforddiant ymarferwyr.</p>	<p>Rheoliad 17 (4) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i nodi bod y System Ailddilysu Arfarniadau Meddygol (MARS) yn cael ei defnyddio ar gyfer cofnodion hyfforddiant ymarferwyr.</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

parhaus yr ymarferwyr. Roedd angen cynnwys hyn yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.					
Pan roedd atgyfeiriad yn cael ei anfon gan gofrestrydd (a'i lofnodi ganddo), clywsom y byddai'r atgyfeiriad yn cael ei ystyried o hyd fel pe bai wedi cael ei anfon gan yr ymgynghorydd. Nid oedd y broses hon yn glir oherwydd, yn ôl y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), yr unigolyn a lofnododd y ffurflen, os oedd ganddo hawl briodol i wneud hynny, ddylai gael ei nodi fel yr atgyfeiriwr.	Dylai'r cyflogwr sicrhau mai'r unigolyn sy'n llofnodi'r ffurflen fel atgyfeiriwr a gaiff ei gydnabod fel yr atgyfeiriwr.	Rheoliad 6 (2) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae gweithdrefn gyfredol y cyflogwr yn nodi'n glir mai'r atgyfeiriwr yw'r unigolyn sy'n gwneud yr atgyfeiriad ac yn llofnodi'r ffurflen atgyfeirio.  Caiff yr ymgynghorydd ei gofnodi ar y fersiwn gyfredol o Radis ar gyfer ceisiadau papur yn unig. Wrth inni symud tuag at geisiadau electronig, caiff yr ymgynghorydd a'r atgyfeiriwr ar y ffurflen eu cofnodi ar Radis.	Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	Wedi'i gwblhau 15 Mai 2024
Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr	Rheoliad 11 (6) o Reoliadau	Mae Gweithdrefnau'r Cyflogwr yn cael eu	Rheolwr Ansawdd a	15 Awst 2024

<p>gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol. Fodd bynnag, roedd angen i weithdrefn y cyflogwr adlewyrchu'r prosesau sydd ar waith ym maes meddygaeth niwclear a'r deiliaid dyletswydd priodol sy'n ymgymryd â'r tasgau. Gallai'r weithdrefn fod yn gliriach, er enghraifft, roedd yn cyfeirio at yr angen am sylw arbennig a'r angen am gyfiawnhad gan radiologydd, ond roedd hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymarferwyr eraill. Roedd cyfeiriad hefyd at awdurdodi o dan y canllawiau yn y fan hon, pe bai'r ymarfer hwn ar waith, yna byddai angen egluro'r weithdrefn hon ymhellach. Yn ogystal, roedd angen egluro'r weithdrefn hon gan nad oedd y llinellau cyfrifoldeb yn glir.</p>	<p>mewn perthynas â chyfiawnhau ac awdurdodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cael ei hadolygu a'i diweddarau i gyfeirio at y deiliaid dyletswydd a'u cwmpas gan ddefnyddio terminoleg briodol gan gyfeirio at y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a chadarnhau llinellau cyfrifoldeb ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi</li> <li>• Yn adlewyrchu'r prosesau a ddefnyddir ym maes meddygaeth niwclear.</li> </ul>	<p>Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>diweddarau i ymdrin â phob maes radioleg, gan gynnwys Meddygaeth Niwclear</p>	<p>Llywodraethu Radioleg</p>	
--	--	---	--	------------------------------	--

<p>Roedd anghysondebau rhwng gweithdrefn y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear. Roedd y weithdrefn meddygaeth niwclear yn ymwneud â chleifion pediatrig o dan 16 oed ac nid oedd yn cynnwys y ffactorau graddio i'w defnyddio yn y lefelau cyfeirio diagnostig. Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn canolbwyntio'n bennaf ar ddelweddu diagnostig heb unrhyw gyfeiriad at feddygaeth niwclear ac roedd yn nodi bod yr ymarferydd yn radiograffydd, nad yw'n derm priodol.</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer pediatreg yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y derminoleg yn gywir a chadarnhau'r ystod oedran y maent yn berthnasol iddi.</p>	<p>Rheoliad 12 (8) (a) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Mae gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol a chaiff yr oedran cywir ar gyfer cleifion pediatrig ei gynnwys yn y ddwy weithdrefn</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>
<p>Clywsom fod y gwyddonwyr clinigol yn cynnal profion derbyn cyn i'r cyfarpar gael ei ddefnyddio at ddibenion clinigol a'u bod yn cael eu</p>	<p>Mae angen i'r cyflogwr ddileu unrhyw ddyblygu rhwng y llawlyfr sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill ym</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio</p>	<p>Mae'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi darparu llyfrau Sicrhau Ansawdd gwahanol ar gyfer</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>

<p>cefnogi gan raglen sicrhau ansawdd drefnedig. Ategwyd hyn gan raglen sicrhau ansawdd leol a oedd yn defnyddio gweithdrefnau a chyfarwyddiadau gwaith a ddarparwyd ac a argymhellwyd gan yr arbenigwr ffiseg feddygol. Byddai Pwyllgor Diogelwch Rhag Ymbelydredd y Bwrdd lechyd yn cael gwybod am unrhyw broblemau o ran sicrhau ansawdd cyfarpar. Nodwyd rhywfaint o ddyblygu rhwng y llawlyfr sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar meddygaeth niwclear a gweithdrefnau eraill</p>	<p>maes meddygaeth niwclear a chyfuno'r rhain yn y llawlyfr sicrhau ansawdd fel y bo'n briodol.</p>	<p>(Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>radioleg gyffredinol a meddygaeth niwclear.</p> <p>Mae'r achosion hyn o ddyblygu wedi codi am fod y camera meddygaeth niwclear newydd yn cynnwys elfen tomograffeg gyfrifiadurol.</p> <p>Byddwn yn cyfuno'r llawlyfrau Sicrhau Ansawdd ac yn gweithio gyda'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol i wneud hynny.</p>		
<p>Clywsom mai diffyg gwybodaeth oedd y prif reswm dros ddychwelyd atgyfeiriadau. Os oedd achosion rheolaidd o ddiffyg gwybodaeth atgyfeirio, byddai'r rhain yn cael eu</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr adolygu'r ffurflenni atgyfeirio ochr yn ochr â'r weithdrefn ar gyfer cwblhau ffurflenni atgyfeirio er mwyn sicrhau bod y ffurflenni'n cael eu</p>	<p>Rheoliad 6 (2) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff ffurflen electronig Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei defnyddio yn lle ffurflen atgyfeirio Ysbyty Tywysoges Cymru. Yn y cyfamser, byddwn yn</p>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>15 Awst 2024</p>



<p>trafod weithiau yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn y pwyllgor meddygol lleol neu'r meddyg teulu. Er nad oedd problem â'r broses, roedd angen ffurfioli a chofnodi'r broses.</p>	<p>cwblhau mewn ffordd gyson. Yn ddelfrydol, dylid safoni'r dogfennau fel y gellir eu cwblhau'n haws.</p>		<p>sicrhau bod ein gweithdrefnau cyflogwr yn cael eu dilyn ni waeth pa ffurflen atgyfeirio a gyflwynir a byddwn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus yn ystod y cyfnod pontio.</p>		
<p>Er bod un ymatebydd wedi dweud wrthym ei fod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith, dywedodd pob aelod o'r staff fod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle.</p>	<p>Dylai'r cyflogwr ystyried sylwadau'r staff a rhoi gwybod i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Y Gweithlu</p>	<p>Rydym wedi hysbysu pob aelod o'r staff ein bod yn gweithredu polisi drws agored. Os bydd angen i unrhyw un drafod unrhyw bryderon, maent yn gwybod at bwy y gallant fynd. Defnyddiwyd y dulliau canlynol i fynd i'r afael â hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfod Penaethiaid Is-adrannau</li> <li>• Cyfarfod i'r staff i gyd</li> </ul>	<p>Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Wedi'i gwblhau 15 Mai 2024</p>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>E-bost gan Reolwr y Gwasanaethau Radioleg i'r holl staff</li> </ul> <p>Mae'r adran yn ceisio cefnogi'r staff ac mae'n cymryd pob pryder o ddifrif.</p>	
--	--	--	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Sharon Donovan  
**Teitl swydd:** Radiograffydd Arolygu  
**Dyddiad:** 20 Mai 2024